

Dewch i Drafod Gwaith Ieuenctid!

Cyfle i Weithwyr Ieuenctid helpu pobl ifanc i ddweud eu dweud am waith ieuenctid gyda Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro newydd Cymru.


Rôl Bwrdd Gwaith Ieuenctid Cymru yw cynghori Llywodraeth Cymru ar y ffordd y gall gwasanaethau gwaith ieuenctid ledled Cymru weithio ar gyfer pob unigolyn ifanc. Er mwyn cyflawni hyn, bydd y bwrdd yn datblygu strategaeth ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru ac maen nhw am sicrhau bod pobl ifanc yn rhan annatod ohono.

Rydw i'n cydnabod os ydyn ni o ddifrif ynghylch diogelu a datblygu gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru, mae angen i ni gynnwys ymarferwyr gwaith ieuenctid o'r cychwyn cyntaf yn ein gwaith. Mae'n rhaid i'r Bwrdd sicrhau bod pobl ifanc yn rhan ganolog o'r broses o helpu i lywio ein gwaith felly fy ngobaith yw y byddwch yn eiddgar i hwyluso'r trafodaethau hynny ac yna i gysylltu'n uniongyrchol â Bwrdd Gwaith Ieuenctid Cymru.

Rydyn ni wedi llunio rhai cwestiynau cychwynnol fel y gall pobl ifanc fwrw iddi gyda'r trafodaethau. Byddwch yn gweld bod y cyflwyniad PowerPoint yn cynnwys rhywfaint o ganllawiau er mwyn eich helpu i hwyluso'r trafodaethau. Mae hyn yn ymwneud â rhoi cyfle i bobl ifanc gymryd rhan a dweud beth sy'n bwysig iddyn nhw. Yn ogystal â'r cyflwyniad PowerPoint, rydyn ni wedi paratoi taflen adborth hefyd fel y gallwch gofnodi safbwyntiau pobl ifanc ac yna eu hanfon atom yn y Bwrdd Gwaith Ieuenctid.

Yn y Gynhadledd Gwaith Ieuenctid a gynhelir yn y Gogledd ar 20 Chwefror, rydyn ni'n gobeithio rhannu'r adborth a gafwyd gan y bobl ifanc a manteisio ar y cyfle hwn i ymarferwyr siarad am eu profiad. Mae hyn yn nodi cychwyn trafodaeth barhaus â chi a phobl ifanc Cymru ... felly da chi, **Dewch i Drafod Gwaith Ieuenctid!**

Diolch o galon,



Kim Jones

Keith Towler
Cadeirydd – Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro Cymru